


# SOLAR A BIOAMRYWIAETH

Mae ein gosodiadau solar wedi eu cynllunio i hybu bioamrywiaeth leol. Rydym yn ymroddedig i weithio gydag arbenigwyr a chymunedau i sicrhau bod budd bioamrywiaeth net i'n prosiectau.


## Amcanion Allweddol




**1.** Gwella bioamrywiaeth leol a chynorthwyo peillwyr



**3.** Gwella cynefinoedd lleol



**2.** Blaenoriaethu rhywogaethau brodorol



**4.** Osgoi neu liniaru effaith y gwaith adeiladu



## Plannu Tirwedd

Paratwir ein cynlluniau tirwedd gan arbenigwyr tirwedd, a bwydir adborth gan ymgysylltiad cymunedol i'r cynllun. Mae'n well gennym ddefnyddio sgrinio naturiol megis plannu cloddiau, llwyni a choed brodorol i'r ardal leol er mwyn ffiltro neu sgrinio golygfeydd. Mae hyn yn gymorth ychwanegol i fflora a ffawna lleol.



## Hau

Cynllunnir ein ffermydd solar gydag ymylon ffiniol llydan er mwyn osgoi cysgod. Gellir hadu'r ardal rhwng ffens y fferm solar a ffin y safle, neu lystyfiant y ffin, gyda chymysgedd pwrpasol, megis blodau gwyllt, dŵl glaswelltir neu gymysgedd arall addas a gynlluniwyd i fwydo a chynorthwyo'r bywyd gwyllt lleol. O fewn yr arae solar ceisir cael cydbwysedd rhwng darparu mwy o fioamrywiaeth a chaniatáu ar gyfer anghenion cynnal neu bori da byw.



## Peillwyr a Mêl

Un o'n prif amcanion wrth lunio cynlluniau cynefin yw cynorthwyo peillwyr – pryfed yn benodol – er mwyn hybu cynhyrchu mewn crydau lleol a rhoi buddion ychwanegol i ffermwyr cyfagos. Gwnawn hyn drwy ddewis cymysgedd priodol o flodau gwyllt, hadau glaswellt a gweundir ar gyfer ein safleoedd. Fe'u cynllunnir gydag arbenigwyr er mwyn bwydo ac annog poblogaethau o bryfed. Yn y DU, ochr yn ochr â'r cynlluniau plannu a gwella bioamrywiaeth hyn, rydym wedi bod yn gweithio mewn partneriaeth â gwynnwyr lleol a sefydliad Ffermwyr Gwenyn, i roi cychod gwenyn o wenydd mēl ar ein ffermydd solar. Mae poblogaethau gwenyn y byd yn dirywio ac rydym yn awyddus i gefnogi gwynnwyr a phoblogaethau lleol er mwyn gwrthdroi hyn. Rydym ni'n gwneud ein mēl solar ein hunain hyd yn oed!

## Cynefinoedd i Fwyd Gwyllt

Ar ôl cael eu gosod, mae ein prosiectau'n amgylchedd heddychlon a diogel i fywyd gwyllt brodorol gael ffynnu. Dyma rai enghreifftiau o rai o'n cynlluniau a'r ffordd y maent o fudd i'r ecosystem leol.



### Giatiau Mamaliaid

I ganiatáu mynediad parhaus i famaliaid bach lle bo'n briodol



### Paneli Solar wedi'u Codi

Yn darparu diogelwch a lloches



### Blychau Adar ac Ystlumod

Mwy o dai ar gyfer diogelwch a bridio



### Noddfa i Ymlusgiaid

Hafan ddiogel i fadfallod ac ymlusgiaid eraill



### Gwesty Pryfed

i annog a chynorthwyo poblogaethau o infertebratau